# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Springholme Care Anglesey Ltd**

**Springholme**
**Traeth Coch**
**Pentraeth**
**LL75 8EX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Springholme Care Anglesey Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | SPRINGHOLME CARE ANGLESEY LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 45 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 06 Chwefror 2024 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn er mwyn edrych ar gynnydd y darparwr tuag at gydymffurfio â'r rheoliadau ers yr arolygiad diwethaf. Felly, ni wnaethom ystyried pob thema arolygu yn llawn.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff caredig a gofalgar ac maent yn hoffi byw yn y cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol arfaethedig yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd, yn goruchwylio'r tîm rheoli ac yn rhoi cymorth iddo. Gwnaed cynnydd er mwyn anelu at gydymffurfiaeth ym mhob rhan o'r cartref ers yr arolygiad diwethaf, ond mae angen gwneud gwelliannau pellach er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn. Mae'r darparwr a'r tîm rheoli yn gweithio gydag AGC a'r comisiynwyr er mwyn dilyn cyngor a gwneud y gwelliannau gofynnol. Byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i bob achos o ddiffyg cydymffurfio sy'n parhau o hyd yn yr arolygiad nesaf. Rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau erbyn hynny.

## Llesiant

Mae gan y bobl rywfaint o reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gall y bobl symud o amgylch y cartref fel y mynnant drwy gydol y dydd a gallant gymdeithasu â'i gilydd neu dreulio amser yn eu hystafelloedd eu hunain os byddai'n well ganddynt wneud hynny. Gall y bobl godi pan fyddant am wneud hynny ac mae'r staff gofal yn gwneud yr hyn y mae'r bobl yn gofyn iddynt ei wneud. Roedd y sylwadau gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn cynnwys, "*they look after me well here*". Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl a'u perthnasau neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth adolygu eu cynlluniau gofal a chymorth. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd â lluniau, ornamentau ac eitemau sy'n bwysig iddynt. Gofynnir am adborth gan y bobl a'u perthnasau ac mae'r darparwr yn gwerthfawrogi'r adborth hwnnw.

Caiff y bobl eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gynlluniwyd gyda'r staff mewn grwpiau neu'n unigol. Mae'r darparwr yn sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill ar gael i'r bobl yn ôl yr angen. Yn ystod ein hymweliad arolygu, gwelsom aelodau'r tîm rheoli yn gweithredu'n brydlon wrth atgyfeirio pobl yr oedd angen adolygiadau meddygol arnynt. Mae dogfennaeth yn dangos bod angen rhagor o waith i sicrhau y gwneir hyn yn gyson bob amser. Mae'r staff gofal yn sylwgar ac yn ymateb mewn modd amserol i glychau galw pan fydd y bobl am gael help ganddynt. Maent yn garedig, yn barchus ac yn ofalgar ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r bobl. Gwelsom aelodau o'r staff yn sgwrsio yn Gymraeg â'r bobl yn ystod ein hymweliad.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar sut i ddiogelu pobl agored i niwed. Mae'r darparwr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i roi arweiniad i'r staff, ond mae'r cofnodion yn dangos nad yw'r staff yn eu dilyn yn gyson. Mae angen gwneud gwelliannau o hyd yn y maes hwn ac mae'r darparwr yn mynd i'r afael â hyn drwy hyfforddi a goruchwylio'r staff. Mae'r darparwr yn sicrhau bod ceisiadau priodol yn cael eu gwneud o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar gyfer yr unigolion hynny nad oes ganddynt alluedd i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth neu am ble maent yn byw.

Mae'r bobl yn hoffi byw yn y cartref sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac sy'n cynnwys y cyfarpar sydd ei angen arnynt. Mae'r darparwr wedi gwella'r trefniadau ar gyfer goruchwylio a monitro iechyd a diogelwch yn y cartref, ac mae gwelliannau yn cael eu gwneud i asesiadau risg unigol ac asesiadau risg y cartref yn barhaus. Mae rhannau o'r ardd ar gael i'r bobl ac yn ddiogel iddynt, ond dywedwyd wrthym nad ydynt yn gallu defnyddio pob rhan o'r tir o amgylch y cartref pryd bynnag y mynnant gan nad yw'r ardal gyfan yn gwbl ddiogel.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod y darparwr yn ystyried gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau cyn cadarnhau ei fod yn gallu diwallu anghenion y bobl. Cynhelir asesiadau cyn derbyn wyneb yn wyneb gan y tîm rheoli. Mae'r prosesau cynllunio gofal a'r asesiadau risg unigol yn parhau i wella, ond mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau y caiff yr holl fanylion sy'n hysbys am y bobl eu cynnwys yn eu cynlluniau personol a'u hasesiadau risg. Gwelsom nad oedd manylion allweddol am anghenion symudedd cyfredol un unigolyn wedi'u cynnwys ym mhob rhan berthnasol o'i gynlluniau. Nid oedd dewisiadau unigolyn arall o ran sut y dylai'r staff gofal ei gefnogi mewn sefyllfaoedd penodol yn glir. Gwnaethom dynnu sylw aelodau'r tîm rheoli at hyn, ac maent yn cymryd camau pellach i sicrhau bod y gwasanaeth yn llwyddo i gydymffurfio o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt yn dilyn yr arolygiad diwethaf.

Caiff y bobl eu cefnogi gan niferoedd priodol o staff gofal caredig, cyfeillgar a pharchus sydd wedi meithrin cydberthnasau da â nhw. Mae'r staff gofal yn rhoi cymorth i'r bobl yn ddwyieithog yn rheolaidd ac maent yn gwybod pa unigolion sy'n hoffi sgwrsio yn Gymraeg neu'n Saesneg. Caiff cynlluniau personol y bobl eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu eu hanghenion presennol. Mae'r ddogfennaeth adolygu yn dangos bod y staff yn ymgynghori â'r bobl a'u perthnasau er mwyn cael adborth i gadarnhau a yw'r cynllun yn diwallu eu hanghenion ai peidio. Mae asesiadau risg ar waith ac yn cael eu hadolygu ochr yn ochr â chynlluniau gofal y bobl. Ni chaiff newidiadau i anghenion y bobl eu diweddaru'n gyson ym mhob un o'r asesiadau risg a'r cynlluniau gofal a chymorth perthnasol. Ni chaiff canlyniadau atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eu dogfennu'n gyson, ac nid yw'r cofnodion yn dangos popeth y mae'r staff gofal yn ei wneud i helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau dymunol yn gywir. Mae'r cofnodion yn dangos nad yw'r staff gofal bob amser yn dilyn y canllawiau cyfredol na pholisïau'r darparwr. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y darparwr yn cydymffurfio'n llawn o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt yn dilyn ein harolygiad blaenorol.

Mae prosesau a gweithdrefnau hylendid priodol ar waith gan y darparwr ac mae'r staff yn eu dilyn. Gwelsom fod y cartref yn lân a bod stoc dda o Gyfarpar Diogelu Personol ar gael. Caiff prosesau priodol eu dilyn i leihau'r risg o haint neu i atal heintiau rhag lledaenu yn y cartref cymaint â phosibl. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith yn y cartref i reoli, rhoi a storio meddyginiaethau'n ddiogel, ac mae'r staff sy'n rhoi meddyginiaethau yn cael yr hyfforddiant priodol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref cyfforddus a diogel. Mae'r darparwr yn sicrhau bod yr adeilad a'r tir mewn cyflwr da. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi wedi cael eu hadnewyddu i safon dda, gan gynnwys lloriau newydd, ffenestri newydd a dodrefn newydd lle roedd eu hangen. Gwelsom fod cyfarpar ymolchi arbenigol ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u haddurno'n ddeniadol ac yn cynnwys y dodrefn a'r cyfarpar sydd eu hangen arnynt. Mae amrywiaeth o ardaloedd cymunedol i'r bobl eu defnyddio ym mhob rhan o'r cartref. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u haddurno'n ddymunol ac mae ffenestri mawr sy'n gadael digon o olau naturiol i mewn i'r adeilad. Mae'r ardaloedd cymunedol amrywiol yn cynnwys digon o seddi i'r bobl eu defnyddio, ac mae digon o fyrddau bwyta a chadeiriau yn yr ardaloedd bwyta i'r mwyafrif o'r bobl fwynhau amseroedd bwyd cymdeithasol gyda'i gilydd. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cynnwys dodrefn gardd a seddi addas. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau eistedd yn y gerddi, ond y byddent yn hoffi pe byddai ardal ddiogel ychwanegol ar gael iddynt er mwyn gallu mwynhau'r tir o amgylch y cartref yn ddiogel.

Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch ar waith er mwyn rhoi arweiniad i'r staff ac i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff archwiliadau iechyd a diogelwch eu cwblhau'n rheolaidd yn y cartref a bod gwiriadau iechyd a diogelwch hefyd yn cael eu cynnal o'r cyfarpar, y cyfleusterau a phrif wasanaethau'r cartref. Caiff asesiadau risg y cartref cyfan eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd gan y tîm rheoli. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn dangos yn ddigonol pwy sy'n gyfrifol am gwblhau'r camau gweithredu nac yn nodi'r terfynau amser ar eu cyfer. Nid yw rhai o'r peryglon posibl wedi cael eu hystyried ar gyfer y bobl yn y cartref sy'n byw gyda dementia a all gerdded yn ôl ac ymlaen, crwydro, neu ddrysu. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau cydymffurfiaeth o fewn yr amserlenni a roddwyd yn yr arolygiad blaenorol.

Caiff y cyfarpar ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw'n unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, ond rhaid i'r darparwr sicrhau bod y staff yn calibradu'r cyfarpar y mae angen ei galibradu yn rheolaidd a'u bod yn dogfennu'r broses honno. Rhoddwyd sgôr hylendid bwyd o bump i'r cartref, sef y lefel uchaf y gellir ei chyflawni. Nid oes unrhyw annibendod yn y coridorau a'r llwybrau cerdded yn yr ardaloedd cymunedol. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ar gyfer y bobl er mwyn rhoi arweiniad i bersonél y gwasanaethau brys pan fydd angen gwagio'r adeilad. Gwelsom nad ydynt bob amser yn cynnwys yr holl fanylion a chyfarwyddiadau sydd eu hangen. Gwnaethom dynnu sylw aelodau'r tîm rheoli at hyn, ac maent yn cymryd camau i ymdrin â'r mater.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn parhau i ddangos ei fod yn goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'n ymweld â'r cartref yn rheolaidd er mwyn edrych ar y cofnodion a siarad â'r bobl a'r staff am eu profiadau yn y cartref. Cynhelir adolygiad cynhwysfawr a phriodol o ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir yn y cartref. Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o ganfyddiadau arolygiadau ac archwiliadau allanol gan weithwyr proffesiynol, ymweliadau monitro gan gomisiynwyr ac archwiliadau mewnol gan reolwr y cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau y caiff y polisïau a'r gweithdrefnau i arwain y staff eu hadolygu a'u diweddaru lle y bo'n ofynnol. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y polisïau yn adlewyrchu anghenion y bobl yn y cartref yn gywir, ac i ddangos bod y staff yn ymwybodol o'r polisïau ac yn eu dilyn yn gyson. Mae'r tîm rheoli a'r Unigolyn Cyfrifol yn cyfarfod yn rheolaidd fel rhan o broses yr Unigolyn Cyfrifol o oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd. Yn dilyn newidiadau diweddar i'r tîm rheoli, mae'r dirprwy reolwr wedi dechrau ymgymryd â rôl y rheolwr. Mae'r rheolwr newydd yn cael cymorth parhaus gan yr Unigolyn Cyfrifol a rheolwr cartref profiadol arall o'r tu allan i'r gwasanaeth.

Mae niferoedd digonol o staff yn y cartref i gefnogi'r bobl sy'n byw yno. Mae niferoedd y staff sy'n bresennol ar bob shifft yn seiliedig ar asesiad o lefelau dibyniaeth presennol y bobl yn y cartref. Defnyddir cyfuniad o staff parhaol a staff asiantaeth rheolaidd pan fydd bylchau yn y rotas oherwydd absenoldebau a gynlluniwyd ac absenoldebau dirybudd ymhlith y staff. Mae'r rheolwr yn defnyddio'r un aelodau o staff asiantaeth pan fydd bylchau er mwyn sicrhau parhad gofal i'r bobl. Mae'r cofnodion yn dangos bod aelodau o staff asiantaeth yn gweithio ochr yn ochr â'r staff parhaol yn ystod shifftiau. Mae'r darparwr yn gwneud ymdrechion rhagweithiol i hysbysebu ac i recriwtio i swyddi gwag. Mae'r cofnodion yn dangos bod y prosesau fetio cywir yn cael eu dilyn ar gyfer aelodau newydd o staff. Caiff gwiriadau fetio parhaus hefyd eu cwblhau'n briodol ar gyfer y staff.

Mae cynlluniau ar waith i wella'r hyfforddiant sefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff ac i gynyddu'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer aelodau profiadol o staff. Caiff cydymffurfiaeth pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y cartref â gofynion hyfforddiant ei monitro a chaiff camau gweithredu addas eu cymryd os na fyddant wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaru gofynnol ar gyfer eu rolau. Mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar-lein ar hyn o bryd ac mae cynlluniau ar waith i drefnu hyfforddiant wyneb yn wyneb lle y bo'n briodol ar gyfer rhai pynciau. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd ac arfarniadau blynyddol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Nid yw'r darparwr wedi dangos gwelliannau digonol eto o ran manylder a chysondeb y canllawiau a roddir i'r staff gofal yng nghynlluniau gofal y bobl, nac o ran cysondeb a chywirdeb y cofnodion sy'n nodi'r gofal a'r cymorth y mae'r bobl yn eu cael. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y cynlluniau gofal yn darparu gwybodaeth berthnasol i roi arweiniad cyson i'r staff o ran y ffordd orau o helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau dymunol, a bod y cynlluniau gofal yn cynnal, yn hyrwyddo ac yn diogelu llesiant a diogelwch y bobl. | Adolygwyd |
| 80 | Nid yw'r adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal yn cydymffurfio â'r hyn sy'n ofynnol gan y rheoliad. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod trefniadau parhaus a chynaliadwy ar waith i fonitro, adolygu a | Adolygwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth, gan gynnwys adborth gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill. | |
| 26 | Er bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud, nid yw'r darparwr wedi dangos yn ddigonol eto bod y prosesau a'r systemau newydd sy'n ymwneud â diogelu yn ymarferol effeithiol a'u bod yn cadw'r bobl yn ddiogel. Rhaid i'r staff a'r Unigolyn Cyfrifol ddangos bod ganddynt ddigon o wybodaeth a'u bod yn goruchwylio digwyddiadau yn y gwasanaeth yn ddigonol er mwyn diogelu'r bobl mewn modd cadarn. | Adolygwyd |
| 34 | Nid yw'r darparwr wedi dangos yn ddigonol eto y bydd y systemau newydd sydd ar waith yn cynnal y lefelau staffio cyfredol pe byddai cynnydd o ran lefelau dibyniaeth a deiliadaeth. Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff gwelliannau i'r lefelau staffio eu cynnal wrth i'r lefelau deiliadaeth gynyddu a rhaid iddo ddangos bod digon o staff ar ddyletswydd bob amser i oruchwylio'r bobl a'u diogelu rhag niwed. | Adolygwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/06/2024